

# RHESTR O WELLIANNAU WEDI’U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

## Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) Elections and Elected Bodies (Wales) Bill

Mae’r gwelliannau â \* ar eu pwys yn rhai newydd neu’n rhai sydd wedi’u haddasu  
Amendments marked \* are new or have been altered

---

Mae gwelliannau a nodir ag ‘R’ yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant  
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu  
17 wrth gyflwyno’r gwelliant.

Amendments marked ‘R’ mean that the Member has declared either a registrable interest  
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling  
the amendment.

---

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –  
The Bill will be considered in the following order –

Sections 1 – 59	Adrannau 1 - 59
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 60 – 71	Adrannau 60 - 71
Long title	Teitl hir

---

### **Adam Price**

**115**

Section 1, page 1, line 32, after ‘referendums’, insert ‘and issues related to the democratic health of the nation’.

Adran 1, tudalen 1, llinell 32, ar ôl ‘Cymreig’, mewnosoder ‘a materion sy’n gysylltiedig ag iechyd democrataidd y genedl’.

### **Adam Price**

**116**

Section 1, page 1, after line 32, insert –

- ( ) The Commission must establish a Democratic Health Unit.
- ( ) The Democratic Health Unit will undertake tasks as directed by the Commission.



- ( ) The Commission must produce and publish an annual report on democratic health in the context of Welsh elections, providing data on a range of matters, including but not limited to –
  - (a) turnout of the electorate,
  - (b) integrity and fairness of elections,
  - (c) public knowledge and understanding of elections by the electorate, and
  - (d) demographic equality and diversity of candidates standing and elected in elections.’.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

- ‘( ) Rhaid i’r Comisiwn sefydlu Uned Iechyd Democrataidd.
- ( ) Bydd yr Uned Iechyd Democrataidd yn ymgymryd â thasgau yn ôl cyfarwyddyd y Comisiwn.
- ( ) Rhaid i’r Comisiwn lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar iechyd democrataidd yng nghyd-destun etholiadau Cymreig, gan ddarparu data ar ystod o faterion, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlynol –
  - (a) canran yr etholwyr a bleidleisiodd,
  - (b) uniondeb a thegwch etholiadau,
  - (c) gwybodaeth y cyhoedd a dealltwriaeth yr etholwyr o etholiadau, a
  - (d) cydraddoldeb ac amrywiaeth ddemograffig yr ymgeiswyr sy’n sefyll ac sy’n cael eu hethol mewn etholiadau.’.

**Peter Fox**

98

Section 1, page 4, leave out line 17.

Adran 1, tudalen 4, hepgorer llinellau 17 hyd at 18.

**Adam Price**

1

Section 1, page 4, line 24, leave out ‘is a former elections officer’ and insert ‘has formerly been in post as an elections officer within three years of being appointed’.

Adran 1, tudalen 4, llinell 26, hepgorer ‘sy’n gyn-swyddog etholiadau’ a mewnosoder ‘sydd wedi bod mewn swydd fel swyddog etholiadau yn flaenrol o fewn 3 blynedd i gael ei benodi’.

**Mick Antoniw**

11

Section 1, page 5, line 7, leave out ‘The Commission must not appoint a person under subsection (1)(c) who is’ and insert ‘A person appointed under subsection (1)(c) must not be’.

Adran 1, tudalen 5, llinell 7, hepgorer ‘Rhaid i’r Comisiwn beidio â phenodi person o dan is-adran (1)(c) sydd’ a mewnosoder ‘Rhaid i berson a benodir o dan is-adran (1)(c) beidio â bod’.

**Mick Antoniw** 12

Section 1, page 5, line 9, leave out 'the House of Commons' and insert 'a UK legislature'.

Adran 1, tudalen 5, llinell 9, hepgorer 'Dŷ'r Cyffredin' a mewnosoder 'un o ddeddfwrfeydd y DU'.

**Mick Antoniw** 13

Section 1, page 5, leave out line 10.

Adran 1, tudalen 5, hepgorer llinell 10.

**Mick Antoniw** 14

Section 1, page 5, line 11, leave out 'Senedd Cymru' and insert 'the Senedd (within the meaning of the Government of Wales Act 2006 (c. 32))'.

Adran 1, tudalen 5, llinell 11, hepgorer 'Senedd Cymru' a mewnosoder 'y Senedd (o fewn yr ystyr a roddir i "member of the staff of the Senedd" gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32))'.

**Mick Antoniw** 15

Section 1, page 5, line 12, leave out '(not falling within paragraph (c)) appointed to assist a Member of the Senedd' and insert 'engaged by a member of a UK legislature, under a contract of service or a contract for services, in connection'.

Adran 1, tudalen 5, llinell 12, hepgorer '(nad yw'n dod o fewn paragraff (c)) a benodir i gynorthwyo Aelod o Senedd Cymru i gyflawni' a mewnosoder 'a gymerir ymlaen gan aelod o un o ddeddfwrfeydd y DU, o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau, mewn cysylltiad â chyflawni'.

**Peter Fox** 99

Section 3, page 8, line 4, leave out '45' and insert '60'.

Adran 3, tudalen 8, llinell 4, hepgorer '45' a mewnosoder '60'.

**Adam Price** 2

Section 3, page 8, after line 30, insert –

'(10) After subsection (1A)(b) of section 9B of the 1983 Act (anonymous registration), insert –

“(1B) The requirement in subsection (1A)(b) to provide evidence in support of an application for anonymous registration does not apply to persons applying for registration in relation to local government elections in Wales and Welsh Parliament elections.”.

Adran 3, tudalen 8, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

'(10) Ar ôl is-adran (1A)(b) o adran 9B o Ddeddf 1983 (cofrestru dienw), mewnosoder –

“(1B) The requirement in subsection (1A)(b) to provide evidence in support of an application for anonymous registration does not apply to persons applying for registration in relation to local government elections in Wales and Welsh Parliament elections.”.

**Adam Price**

3

Section 3, page 8, after line 30, insert –

‘(10) After subsection (1) of section 9C of the 1983 Act (removal of anonymous entry), insert –

“(1ZA) If a person has an anonymous entry in a register for local government elections in Wales and Welsh Parliament Elections, the person’s entitlement to remain registered continues until such time the person gives notice to be removed.”

(11) In section 9C(1) of the 1983 Act, after “Great Britain” insert “other than a register that applies to local government elections in Wales and Welsh Parliament elections”.

Adran 3, tudalen 8, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

‘(10) Ar ôl is-adran (1) o adran 9C o Ddeddf 1983 (dileu’r cofnod dienw), mewnosoder –

“(1ZA) If a person has an anonymous entry in a register for local government elections in Wales and Welsh Parliament Elections, the person’s entitlement to remain registered continues until such time the person gives notice to be removed.”

(11) Yn adran 9C(1) o Ddeddf 1983, ar ôl “Great Britain” mewnosoder “other than a register that applies to local government elections in Wales and Welsh Parliament elections”.

**Mick Antoniw**

16

Section 4, page 10, after line 4, insert –

‘(c) in paragraph 10, after sub-paragraph (2) insert –

“(3) This paragraph does not apply to a register of local government electors for an area in Wales.”

(d) in paragraph 10B, after sub-paragraph (3) insert –

“(4) Paragraph (b) of sub-paragraph (1) does not apply to a register of local government electors for an area in Wales.”.

Adran 4, tudalen 10, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

‘(c) ym mharagraff 10, ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder –

“(3) This paragraph does not apply to a register of local government electors for an area in Wales.”

(d) ym mharagraff 10B, ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder –

“(4) Paragraph (b) of sub-paragraph (1) does not apply to a register of local government electors for an area in Wales.”.

**Peter Fox**

**100**

Section 4, page 10, after line 4, insert –

‘(10) The Welsh Ministers must, no later than the end of the period of 12 months beginning immediately after the end of the Local Government Elections in Wales held in 2027, carry out a review and lay a report before the Senedd relating to the operation of electoral registration without application.’.

Adran 4, tudalen 10, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

‘(10) Rhaid i Weinidogion Cymru, heb fod yn hwyrach na diwedd y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau yn union ar ôl diwedd yr Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru a gynhelir yn 2027, gynnal adolygiad a gosod adroddiad gerbron y Senedd sy’n ymwneud â gweithrediad cofrestru etholiadol heb gais.’.

**Adam Price**

**7**

Section 5, page 10, after line 30, insert –

‘(f) the universal civic duty to vote.’.

Adran 5, tudalen 10, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

‘(f) y ddyletswydd ddinesig gyffredinol i bleidleisio.’.

**Peter Fox**

**101**

Section 5, page 10, after line 30, insert –

‘(f) frequency of electoral cycles.’.

Adran 5, tudalen 10, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

‘(f) amlder cylchoedd etholiadol.’.

**Mick Antoniw**

**17**

Section 5, page 10, line 32, leave out ‘section 3’ and insert ‘sections 3 and 4’.

Adran 5, tudalen 10, llinell 34, hepgorer ‘adran 3’ a mewnosoder ‘adrannau 3 a 4’.

**Mick Antoniw**

**18**

Section 5, page 11, line 1, leave out ‘section 3 (or the subordinate legislation that may be made by virtue of that section)’ and insert ‘sections 3 and 4 (or the subordinate legislation that may be made by virtue of those sections)’.

Adran 5, tudalen 11, llinell 1, hepgorer ‘adran 3 (neu’r is-ddeddfwriaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd yr adran honno)’ a mewnosoder ‘adrannau 3 a 4 (neu’r is-ddeddfwriaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd yr adrannau hynny)’.

**Adam Price**

117

Section 5, page 11, after line 11, insert –

- ‘() The Welsh Ministers must make pilot regulations, no later than five years after this Act receives Royal Assent, that makes provision for an election to take place on a Sunday.’.

Adran 5, tudalen 11, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau peilot, heb fod yn hwyrach na phum mlynedd ar ôl i’r Ddeddf hon gael y Cydsyniad Brenhinol, sy’n gwneud darpariaeth i etholiad ddigwydd ar ddydd Sul.’.

**Adam Price**

8

Section 5, page 11, after line 24, insert –

“the universal civic duty to vote” (“*y ddyletswydd ddinesig gyffredinol i bleidleisio*”) means the requirement that registered voters participate in a Welsh election.’.

Adran 5, tudalen 11, ar ôl llinell 31, mewnosoder –

‘ystyr “*y ddyletswydd ddinesig gyffredinol i bleidleisio*” (“*the universal civic duty to vote*”) yw’r gofyniad bod pleidleiswyr cofrestredig yn cymryd rhan mewn etholiad Cymreig.’.

**Peter Fox**

102

Section 6, page 12, leave out lines 1 to 6.

Adran 6, tudalen 12, hepgorer llinellau 1 hyd at 6.

**Peter Fox**

103

Section 6, page 12, after line 9, insert –

- ‘(5) Before making any pilot regulations under section 5 which relate to electoral registration without application, the Welsh Ministers must undertake consultation with such stakeholders as they consider appropriate, but in particular, with those that they deem to represent vulnerable groups.’.

Adran 6, tudalen 12, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

- ‘(5) Cyn gwneud unrhyw reoliadau peilot o dan adran 5 sy’n ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw randdeiliaid y maent yn ystyried eu bod yn briodol, ond yn benodol, â’r rheini y maent yn barnu eu bod yn cynrychioli grwpiau hyglwyf.’.



**Peter Fox**

**104**

Section 6, page 12, after line 9, insert –

- '(5) Pilot regulations, where appropriate, must ensure that they cover a geographical range of areas across Wales which includes both rural and urban areas.'

Adran 6, tudalen 12, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

- '(5) Rhaid i reoliadau peilot, pan fo'n briodol, sicrhau eu bod yn cwmpasu ystod ddaearyddol o ardaloedd ledled Cymru sy'n cynnwys ardaloedd gwledig a threfol.'

**Mick Antoniw**

**19**

Section 7, page 12, after line 15, insert –

- '() If a statutory instrument or a draft statutory instrument containing pilot regulations laid before Senedd Cymru makes provision applying to the area of a principal council (or any part of it) to which the council has not given its consent, the Welsh Ministers must also lay a statement before the Senedd explaining why they consider the provision should be made without the council's consent.'

Adran 7, tudalen 12, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

- '() Os yw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft sy'n cynnwys rheoliadau peilot a osodir gerbron Senedd Cymru yn gwneud darpariaeth sy'n gymwys i ardal prif gyngor (neu unrhyw ran ohoni) nad yw'r cyngor wedi rhoi ei gydsyniad iddi, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd osod datganiad gerbron y Senedd sy'n egluro pam y maent yn ystyried y dylai'r ddarpariaeth gael ei gwneud heb gydsyniad y cyngor.'

**Mick Antoniw**

**20**

Page 12, line 27, leave out section 8.

Tudalen 12, llinell 29, hepgorer adran 8.

**Peter Fox**

**105**

Section 19, page 18, after line 3, insert –

- '() Electoral reform regulations must not create, remove or modify any criminal offence.'

Adran 19, tudalen 18, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

- '() Ni chaiff rheoliadau diwygio etholiadol greu, dileu nac addasu unrhyw drosedd.'

**Peter Fox**

**106**

Section 19, page 18, line 4, leave out subsection (6).

Adran 19, tudalen 18, llinell 5, hepgorer is-adran (6).

**Mick Antoniw**

**21**

Section 20, page 19, after line 31, insert –

- ‘() If after the expiry of the 60-day period the Welsh Ministers wish to proceed with the draft regulations without material changes where material changes are recommended by a committee of Senedd Cymru charged with reporting on the draft regulations –
- (a) the Welsh Ministers must lay before Senedd Cymru a statement explaining their reasons for not accepting the committee’s recommendations (whether wholly or partly), and
  - (b) if the draft regulations are subsequently approved by a resolution of Senedd Cymru, the Welsh Ministers may make regulations in the terms of the draft regulations.’.

Adran 20, tudalen 19, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

- ‘() Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl i’r cyfnod o 60 o ddiwrnodau ddod i ben, yn dymuno bwrw ymlaen â’r rheoliadau drafft heb newidiadau o sylwedd pan fo newidiadau o sylwedd wedi eu hargymell gan bwyllgor yn Senedd Cymru a chanddo’r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft –
- (a) rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru ddatganiad sy’n egluro eu rhesymau dros beidio â derbyn argymhellion y pwyllgor (pa un ai’n gyfan gwbl neu’n rhannol), a
  - (b) os yw’r rheoliadau drafft wedi eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru yn ddiweddarach, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau gan ddilyn ffurf y rheoliadau drafft.’.

**Mick Antoniw**

**22**

Section 20, page 19, line 32, after ‘period’, insert ‘the Welsh Ministers wish to proceed with the draft regulations without material changes where no material changes are recommended by a committee of Senedd Cymru charged with reporting on the draft regulations and’.

Adran 20, tudalen 19, llinell 36, hepgorer ‘yw’r rheoliadau drafft, ar ôl i’r cyfnod o 60 o ddiwrnodau ddod i ben,’ a mewnosoder ‘yw Gweinidogion Cymru, ar ôl i’r cyfnod o 60 o ddiwrnodau ddod i ben, yn dymuno bwrw ymlaen â’r rheoliadau drafft heb newidiadau o sylwedd pan na fo unrhyw newidiadau o sylwedd wedi eu hargymell gan bwyllgor yn Senedd Cymru a chanddo’r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft ac os yw’r rheoliadau drafft’.

**Mick Antoniw**

**23**

Section 20, page 20, line 2, after ‘proposed’, insert ‘and, if subsection (subsection inserted by this amendment) applies, explaining the Welsh Ministers’ reasons for not accepting (whether wholly or partly) recommendations of a committee of Senedd Cymru charged with reporting on the draft regulations.

- ( ) This subsection applies if –
- (a) the material changes in the revised draft regulations are materially different from changes recommended by the committee, or
  - (b) the revised draft regulations do not contain material changes recommended by the committee’.



Adran 20, tudalen 20, llinell 2, ar ôl ‘gynigir’, mewnosoder ‘ac, os yw is-adran (yr is-adran a fewnosodir gan y gwelliant hwn) yn gymwys, sy’n egluro rhesymau Gweinidogion Cymru dros beidio â derbyn (pa un ai’n gyfan gwbl neu’n rhannol) argymhellion gan bwyllgor yn Senedd Cymru a chanddo’r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft.

- ( ) Mae’r is-adran hon yn gymwys –
  - (a) os yw’r newidiadau o sylwedd yn y rheoliadau drafft diwygiedig yn sylweddol wahanol i’r newidiadau sydd wedi eu hargymell gan y pwyllgor, neu
  - (b) os nad yw’r rheoliadau drafft diwygiedig yn cynnwys newidiadau o sylwedd sydd wedi eu hargymell gan y pwyllgor’.

**Adam Price**

9

Page 22, after line 20, insert a new section –

*‘Duty on returning officers to assist partially sighted voters*

**[ ] Duty on returning officers to assist partially sighted voters**

- (1) Returning officers must make arrangements for the provision of tactile and audio solutions at every polling station for the benefit of blind or partially-sighted voters.
- (2) In exercising their functions under this section a returning officer must have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers.
- (3) In this section “returning officer” means a returning officer (however described) –
  - (a) appointed under section 35(1A) of the Representation of the People Act 1983,
  - (b) designated in accordance with an order made under section 13 of the Government of Wales Act 2006, or
  - (c) appointed under regulations made by virtue of section 44 or 45 of the Local Government Act 2000.’.

Tudalen 22, ar ôl llinell 20, mewnosoder adran newydd –

*‘Dyletswydd ar swyddogion canlyniadau i gynorthwyo pleidleiswyr sy’n rhannol ddall*

**[ ] Dyletswydd ar swyddogion canlyniadau i gynorthwyo pleidleiswyr sy’n rhannol ddall**

- (1) Rhaid i swyddogion canlyniadau wneud trefniadau ar gyfer darparu datrysiadau cyffyrddadwy a chlywedol ym mhob gorsaf bleidleisio er budd pleidleiswyr sy’n ddall neu’n rhannol ddall.
- (2) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i swyddog canlyniadau roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.
- (3) Yn yr adran hon, ystyr “swyddog canlyniadau” yw swyddog canlyniadau (sut bynnag y’i disgrifir) –
  - (a) a benodir o dan adran 35(1A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983,
  - (b) a ddynodir yn unol â gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, neu
  - (c) a benodir o dan reoliadau a wneir yn rhinwedd adran 44 neu 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.’.

**Peter Fox** 107

Section 26, page 22, after line 32, insert –

‘(4) In subsection 3(a), the specified questions must include questions in relation to candidates’ experience of abuse and harassment.”;’.

Adran 26, tudalen 22, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

‘(4) Yn is-adran (3)(a), rhaid i’r cwestiynau penodedig gynnwys cwestiynau mewn perthynas â phrofiad ymgeiswyr o gam-drin ac aflonyddu.”;’.

**Peter Fox** 108

Page 23, line 11, leave out section 27.

Tudalen 23, llinell 11, hepgorer adran 27.

**Peter Fox** 109

Section 27, page 23, leave out lines 23 to 26.

Adran 27, tudalen 23, hepgorer llinellau 25 hyd at 28.

**Adam Price** 49

Section 27, page 23, line 24, after ‘candidates’, insert ‘and registered political parties’.

Adran 27, tudalen 23, llinell 26, ar ôl ‘ymgeiswyr’ yn yr ail le y mae’n ymddangos, mewnosoder ‘a phleidiau gwleidyddol cofrestredig’.

**Adam Price** 50

Section 27, page 23, after line 24, insert –

‘( ) about the publication of information on the platform relating to polling stations, voting systems, background history of devolved elections in Wales (including the steps that led to the establishment of devolution) and issues related to the democratic health of Wales;’.

Adran 27, tudalen 23, ar ôl llinell 26, mewnosoder –

‘( ) ynghylch cyhoeddi gwybodaeth ar y platfform sy’n ymwneud â gorsafoedd pleidleisio, systemau pleidleisio, hanes cefndirol ynghylch etholiadau datganoledig yng Nghymru (gan gynnwys y camau a arweiniodd at sefydlu datganoli) a materion sy’n gysylltiedig ag iechyd democrataidd Cymru;’.

**Adam Price** 51

Section 27, page 23, line 26, leave out ‘candidate information’ and insert ‘information about candidates and registered political parties’.

Adran 27, tudalen 23, llinell 28, ar ôl ‘ymgeiswyr’ yn yr ail le y mae’n ymddangos, mewnosoder ‘a phleidiau gwleidyddol cofrestredig’.

**Adam Price**

**118**

Section 27, page 23, after line 27, insert –

- ‘(e) for making users of the platform aware when elections information has been wholly or partly created using artificial intelligence.’

Adran 27, tudalen 23, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

- ‘(e) i roi gwybod i ddefnyddwyr y plattform pan grëwyd gwybodaeth am etholiadau yn gyfan gwbl neu’n rhannol gan ddefnyddio deallusrwydd artifisial.’

**Adam Price**

**119**

Section 27, page 24, after line 1, insert –

- ‘(c) all electronic material for a specified Welsh election which meets the conditions set out in section 41 and section 44 of the Elections Act 2022 to be –
    - (i) deposited on the platform by the promoter of the material or the person on behalf of which it is published, and
    - (ii) published on the platform;
  - (d) any electronic material deposited on the platform that is produced using generative artificial intelligence must be subject to disclosure by the promoter of the material or the person on behalf of which it is published;
  - (e) any electronic material deposited on the platform that contains materially deceptive images, video or audio recording must be subject to disclosure by the promoter of the material or the person on behalf of which it is published;
  - (f) any material subject to disclosure under this subsection must include a disclaimer stating that it has been created using generative artificial intelligence to be published on the information platform and in the electronic material in the same terms as set out for the information required under section 41(3) of the Elections Act 2022.
- ( ) Failure to comply with the requirements set out in paragraphs (*[first paragraph to be inserted by this amendment]*) to (*[the fourth paragraph to be inserted by this amendment]*) is an offence punishable by a fine on summary conviction.
- ( ) The following persons may be guilty of an offence under subsection (*[first subsection to be inserted by this amendment]*) –
- (a) the promoter of the material;
  - (b) any person on behalf of whom the material is published (and who is not the promoter).
- ( ) It is a defence for a person charged with an offence under subsection (*[first subsection to be inserted by this amendment]*) to prove –
- (a) that the contravention arose from circumstances beyond the person’s control, and
  - (b) that the person took all reasonable steps, and exercised all due diligence, to ensure that the contravention would not arise.



- ( ) If a person is convicted of an offence under subsection (*[first subsection to be inserted by this amendment]*), the court by or before which the person is convicted of the offence may order a person by whom the electronic material is published to take the action specified in the order to remove the material, or to disable access to it, before the end of the period specified in the order.
- ( ) A person to whom an order under subsection (*[fourth subsection to be inserted by this amendment]*) applies commits an offence if, without reasonable excuse, the person fails to comply with the order.
- ( ) A person guilty of an offence under subsection (*[fourth subsection to be inserted by this amendment]*) is liable on summary conviction, to a fine.
- ( ) A person must not submit to the voter information platform a statement of fact that is misleading or deceptive in a material particular.
- ( ) Any person may make a complaint to Democracy and Boundary Commission Cymru that another person has breached subsection (*[seventh subsection to be inserted by this amendment]*).
- ( ) The Democracy and Boundary Commission Cymru may investigate if it believes on reasonable grounds that an investigation is in the public interest.
- ( ) If the Democracy and Boundary Commission Cymru is satisfied on reasonable grounds that a person has breached subsection (*[seventh subsection to be inserted by this amendment]*), it may order that person to remove the material from circulation and publish a correction.
- ( ) Failure to comply with an order under subsection (*[tenth subsection to be inserted by this amendment]*) is an offence punishable under summary conviction, by a fine.’.

Adran 27, tudalen 24, ar ôl llinell 1, mewnosoder –

- ‘(c) i bob deunydd electronig ar gyfer etholiad Cymreig penodedig sy’n bodloni’r amodau a nodir yn adran 41 ac adran 44 o Ddeddf Etholiadau 2022 –
    - (i) cael ei roi ar y platfform gan hyrwyddwr y deunydd neu’r person y’i cyhoeddir ar ei ran, a
    - (ii) cael ei gyhoeddi ar y platfform;
  - (d) i unrhyw ddeunydd electronig sy’n cael ei roi ar y platfform ac sy’n cael ei lunio gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol gael ei ddatgelu gan hyrwyddwr y deunydd neu’r person y’i cyhoeddir ar ei ran;
  - (e) i unrhyw ddeunydd electronig sy’n cael ei roi ar y platfform ac sy’n cynnwys delweddau, fideo neu recordiad sain sy’n dwyllodrus mewn modd perthnasol gael ei ddatgelu gan hyrwyddwr y deunydd neu’r person y’i cyhoeddir ar ei ran;
  - (f) i unrhyw ddeunydd sy’n ddarostyngedig i’w ddatgelu o dan yr is-adran hon gynnwys ymwadiad sy’n datgan ei fod wedi ei greu gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i gael ei gyhoeddi ar y platfform gwybodaeth ac yn y deunydd electronig ar yr un telerau ag a nodir ar gyfer yr wybodaeth sy’n ofynnol o dan adran 41(3) o Ddeddf Etholiadau 2022.
- ( ) Mae methu â chydymffurfio â’r gofynion a nodir ym mharagraffau (*[y paragraff cyntaf i’w fewnosod gan y gwelliant hwn]*) i (*[y pedwerydd paragraff i’w fewnosod gan y gwelliant hwn]*) yn drosedd i’w chosbi drwy ddirwy ar euogfarn ddiannod.

- ( ) Gall y personau a ganlyn fod yn euog o drosedd o dan is-adran ([*yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) –
  - (a) hyrwyddwr y deunydd;
  - (b) unrhyw berson y cyhoeddir y deunydd ar ei ran (nid yr hyrwyddwr).
- ( ) Mae’n amddiffyniad i berson a gyhuddir o drosedd o dan is-adran ([*yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) brofi –
  - (a) bod y tramgwydd wedi codi o amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y person, a
  - (b) bod y person wedi cymryd pob cam rhesymol, ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy, i sicrhau na fyddai’r tramgwydd yn codi.
- ( ) Os caiff person ei euogfarnu o drosedd o dan is-adran ([*yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*]), caiff y llys y mae’r person yn cael ei euogfarnu o’r drosedd ganddo neu ger ei fron orchymyn i berson sydd wedi cyhoeddi’r deunydd electronig gymryd y camau a bennir yn y gorchymyn ddileu’r deunydd, neu beidio â chaniatáu mynediad iddo, cyn diwedd y cyfnod a bennir yn y gorchymyn.
- ( ) Mae person y mae gorchymyn o dan is-adran ([*y bedwaredd is-adran i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) yn gymwys iddo yn cyflawni trosedd os yw’r person, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â’r gorchymyn.
- ( ) Mae person sy’n euog o drosedd o dan is-adran ([*y bedwaredd is-adran i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.
- ( ) Ni chaiff person gyflwyno i’r platfform gwybodaeth pleidleiswyr ddatganiad ffeithiau sy’n gamarweiniol neu’n dwyllodrus mewn manylyn perthnasol.
- ( ) Caiff unrhyw berson wneud cwyn i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru bod person arall wedi torri is-adran ([*y seithfed is-adran i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*]).
- ( ) Caiff Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ymchwilio os yw’n credu ar sail resymol fod ymchwiliad er budd y cyhoedd.
- ( ) Os yw Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi ei fodloni ar sail resymol fod person wedi torri is-adran ([*y seithfed is-adran i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*]), caiff orchymyn i’r person hwnnw ddileu’r deunydd o gylchrediad a chyhoeddi cywiriad.
- ( ) Mae methu â chydymffurfio â gorchymyn o dan is-adran ([*y ddegfed is-adran i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) yn drosedd i’w chosbi ar euogfarn ddiannod drwy ddirwy.’.

**Adam Price**

**120**

Section 27, page 24, after line 8, insert –

“artificial intelligence” (“*deallusrwydd artiffisial*”) and “AI” mean technology enabling the programming or training of a device or software to –

- (a) perceive environments through the use of data,
- (b) interpret data using automated processing designed to approximate cognitive abilities,
- (c) make recommendations, predictions or decisions; with a view to achieving a specific objective, and
- (d) make deep or large language models able to generate text and other content based on the data on which they were trained;’.

Adran 27, tudalen 24, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

‘ystyr “deallusrwydd artiffisial” (“*artificial intelligence*”) yw technoleg sy’n galluogi rhaglennu neu hyfforddi dyfais neu feddalwedd i –

- (a) canfod amgylcheddau drwy ddefnyddio data,
- (b) dehongli data gan ddefnyddio dull awtomatig o brosesu a ddylunnir i efelychu galluoedd gwybyddol,
- (c) gwneud argymhellion, rhagfynegiadau neu benderfyniadau; gyda golwg ar gyflawni amcan penodol, a
- (d) sicrhau bod modelau iaith dwfn neu fawr yn gallu cynhyrchu testun a chynnwys arall yn seiliedig ar y data a ddefnyddiwyd i’w hyfforddi.’

**Mick Antoniw**

24

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 28, tudalen 24, llinell 31, hepgorer ‘sicrhau’.

**Adam Price**

52

Section 28, page 25, after line 5, insert –

‘(h) security.’

Adran 28, tudalen 25, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

‘(h) diogelwch.’

**Adam Price**

53

Section 29, page 25, after line 30, insert –

‘() Regulations under paragraph (1) may make specific provision about expenses, including (but not limited to) costs incurred in relation to any provision of care and support provided by the candidate in order to allow them to participate in the election.’

Adran 29, tudalen 25, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

‘() Caiff rheoliadau o dan baragraff (1) wneud darpariaeth benodol ynghylch treuliau, gan gynnwys costau yr eir iddynt mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth o ofal a chymorth a ddarperir gan yr ymgeisydd er mwyn caniatáu iddynt gymryd rhan yn yr etholiad (ond heb fod yn gyfyngedig i’r costau hynny).’

**Peter Fox**

110

Section 29, page 25, after line 37, insert –

‘() Before making regulations under subsection (1) or (2) the Welsh Ministers must take steps to promote public awareness of any financial assistance schemes prior to any relevant election.’

Adran 29, tudalen 25, ar ôl llinell 39, mewnosoder –

- '( ) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) neu (2), rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o unrhyw gynlluniau cymorth ariannol cyn unrhyw etholiad perthnasol.'

**Mick Antoniw**

25

Section 29, page 26, line 8, leave out subsection (7) and insert –

- '( ) The scheme must not be operated by excluded persons (see section 30).'

Adran 29, tudalen 26, llinell 8, hepgorer is-adran (7) a mewnosoder –

- '( ) Ni chaniateir i'r cynllun gael ei weithredu gan bersonau a eithrir (gweler adran 30).'

**Adam Price**

121

Page 26, after line 38, insert a new section –

**[ ] Duty to monitor gender based political violence, harassment, abuse and intimidation of Elected Representatives**

- (1) The Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013 (“the 2013 Act”) is amended as follows.
- (2) After Part 3 insert –

**“PART 3A**

**DUTY TO MONITOR GENDER BASED POLITICAL VIOLENCE,  
HARRASSMENT, ABUSE AND INTIMIDATION OF ELECTED  
REPRESENTATIVES**

**49A Duty to monitor gender based political violence, harassment, abuse and intimidation of elected representatives**

- (1) The Commission must establish a monitoring unit on gender based political violence, harassment, abuse and intimidation of elected representatives.
- (2) Elected representatives include –
  - (a) Members of the Senedd,
  - (b) County Councillors, and
  - (c) Community Councillors.
- (3) The Commission must collect and publish data annually on the extent of gender based political violence, harassment, abuse and intimidation of elected representatives, disaggregated between women and men and according to other protected characteristics on an anonymised basis.
- (4) The Welsh Ministers may by regulations make further provision about the Commission’s duty to monitor gender based political violence, harassment, abuse and intimidation of elected representatives for the purpose of this section.”

Tudalen 26, ar ôl llinell 39, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Dyletswydd i fonitro trais, aflonyddu, cam-drin a bygwth gwleidyddol ar sail rhywedd yn erbyn Cynrychiolwyr Etholedig**

- (1) Mae Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (“Deddf 2013”) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ar ôl Rhan 3 mewnosoder –

**“RHAN 3A**

**DYLETSWYDD I FONITRO TRAIS, AFLONYDDU, CAM-DRIN A  
BYGWTH GWLEIDYDDOL AR SAIL RHYWEDD YN ERBYN  
CYNRYCHIOLWYR ETHOLEDIG**

**49A Dyletswydd i fonitro trais, aflonyddu, cam-drin a bygwth gwleidyddol ar sail rhywedd yn erbyn cynrychiolwyr etholedig**

- (1) Rhaid i’r Comisiwn sefydlu uned i fonitro trais, aflonyddu, cam-drin a bygwth gwleidyddol ar sail rhywedd yn erbyn cynrychiolwyr etholedig.
- (2) Mae cynrychiolwyr etholedig yn cynnwys –
  - (a) Aelodau o’r Senedd,
  - (b) Cynghorwyr Sir, ac
  - (c) Cynghorwyr Cymuned.
- (3) Rhaid i’r Comisiwn gasglu a chyhoeddi data yn flynyddol ar raddfa’r trais, aflonyddu, cam-drin a bygwth gwleidyddol ar sail rhywedd yn erbyn cynrychiolwyr etholedig, wedi’u dadgyfuno rhwng menywod a dynion ac yn ôl eu nodweddion gwarchoddedig eraill ar sail ddiennw.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch dyletswydd y Comisiwn i fonitro trais, aflonyddu, cam-drin a bygwth gwleidyddol ar sail rhywedd yn erbyn cynrychiolwyr etholedig at ddiben yr adran hon.”.

**Mick Antoniw**

26

Section 30, page 27, leave out line 4.

Adran 30, tudalen 27, hepgorer llinell 4.

**Mick Antoniw**

27

Section 30, page 27, line 6, leave out ‘member of the civil service of the state (including the staff of the Welsh Government)’ and insert ‘person employed in the civil service of the state’.

Adran 30, tudalen 27, hepgorer llinell 6 a mewnosoder –

‘( ) person a gyflogir yng ngwasanaeth sifil y wladwriaeth;’.



**Mick Antoniw**

28

Section 30, page 27, after line 8, insert –

‘() a member of the House of Lords;’.

Adran 30, tudalen 27, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

‘() aelod o Dŷ’r Arglwyddi;’.

**Mick Antoniw**

29

Section 30, page 27, after line 10, insert –

‘() a member of the staff of the Senedd (within the meaning of the Government of Wales Act 2006 (c. 32));’.

Adran 30, tudalen 27, ar ôl llinell 9, mewnosoder –

‘() aelod o staff y Senedd (o fewn yr ystyr a roddir i “member of the staff of the Senedd” gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32));’.

**Mick Antoniw**

30

Section 30, page 27, line 23, leave out ‘(j)’ and insert ‘(k)’.

Adran 30, tudalen 27, llinell 24, hepgorer ‘(j)’ a mewnosoder ‘(k)’.

**Mick Antoniw**

31

Section 30, page 27, line 24, leave out ‘(g)’ and insert ‘(h)’.

Adran 30, tudalen 27, llinell 25, hepgorer ‘(g)’ a mewnosoder ‘(h)’.

**Mick Antoniw**

32

Page 27, after line 25, insert a new section –

**[ ] Guidance for political parties to promote diversity in persons seeking elected office**

(1) The Welsh Ministers must issue guidance for registered political parties about –

(a) collecting, collating and publishing diversity information about candidates representing registered political parties at elections for the return of members of Senedd Cymru;

(b) developing, publishing, implementing and reviewing strategies for –

(i) promoting diversity in the specified characteristics and specified circumstances of candidates representing registered political parties at Welsh elections, and

(ii) helping candidates representing registered political parties at Welsh elections overcome barriers to their participation in the elections connected to having those characteristics or circumstances.

(2) The Welsh Ministers –

- (a) must publish guidance under this section;
  - (b) must publish the first guidance under this section before 1 May 2025;
  - (c) must review published guidance from time to time, having regard to the cycle of ordinary general elections for membership of Senedd Cymru and, in relation to guidance under subsection (1)(b), the cycle of ordinary elections for membership of the councils of counties, county boroughs and communities in Wales and elected mayors;
  - (d) may revise published guidance at any time.
- (3) In this section –
- “diversity information” (“*gwybodaeth am amrywiaeth*”) means specified information relating to a person’s personal characteristics or personal circumstances;
  - “elected mayor” (“*maer etholedig*”) means an elected mayor of a council of a county or county borough in Wales;
  - “specified” (“*penodedig*”) means specified in guidance under this section;
  - “Welsh election” (“*etholiad Cymreig*”) means an election for the return of –
    - (a) a member of Senedd Cymru;
    - (b) a member of the council of a county or county borough in Wales;
    - (c) a member of the council of a community in Wales;
    - (d) an elected mayor.’.

Tudalen 27, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy’n ceisio swydd etholedig**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig ynghylch –
- (a) casglu, crynhoi a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth ynghylch ymgeiswyr sy’n cynrychioli pleidiau gwleidyddol cofrestredig mewn etholiadau ar gyfer dychwelyd aelodau o Senedd Cymru;
  - (b) datblygu, cyhoeddi, gweithredu ac adolygu strategaethau –
    - (i) i hybu amrywiaeth yn nodweddion penodedig ac amgylchiadau penodedig ymgeiswyr sy’n cynrychioli pleidiau gwleidyddol cofrestredig mewn etholiadau Cymreig, a
    - (ii) i gynorthwyo ymgeiswyr sy’n cynrychioli pleidiau gwleidyddol cofrestredig mewn etholiadau Cymreig i oresgyn rhwystrau sy’n eu hatal rhag cymryd rhan yn yr etholiadau sy’n gysylltiedig â’r ffaith bod ganddynt y nodweddion neu’r amgylchiadau hynny.
- (2) O ran Gweinidogion Cymru –
- (a) rhaid iddynt gyhoeddi canllawiau o dan yr adran hon;
  - (b) rhaid iddynt gyhoeddi’r canllawiau cyntaf o dan yr adran hon cyn 1 Mai 2025;

- (c) rhaid iddynt adolygu’r canllawiau a gyhoeddir o bryd i’w gilydd, gan roi sylw i gylch etholiadau cyffredinol cyffredin i fod yn aelodau o Senedd Cymru ac, mewn perthynas â chanllawiau o dan is-adran (1)(b), i gylch etholiadau cyffredin i fod yn aelodau o gynghorau siroedd, bwrdeistrefi sirol a chymunedau yng Nghymru ac i fod yn feiri etholedig;
- (d) cânt ddiwygio ar unrhyw adeg ganllawiau a gyhoeddir.
- (3) Yn yr adran hon –
- ystyr “etholiad Cymreig” (“*Welsh election*”) yw etholiad ar gyfer dychwelyd –
- (a) aelod o Senedd Cymru;
  - (b) aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;
  - (c) aelod o gyngor cymuned yng Nghymru;
  - (d) maer etholedig;
- ystyr “gwybodaeth am amrywiaeth” (“*diversity information*”) yw gwybodaeth benodedig sy’n ymwneud â nodweddion personol neu amgylchiadau personol sydd gan berson;
- ystyr “maer etholedig” (“*elected mayor*”) yw maer etholedig cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;
- ystyr “penodedig” (“*specified*”) yw wedi ei bennu mewn canllawiau o dan yr adran hon.’.

Adam Price

4

Page 27, after line 25, insert a new section –

*Welsh language requirement for returning officers*

**[ ] Welsh language requirement for returning officers**

In the table in paragraph (1) of Schedule 6 to the Welsh Language Measure 2011, insert in the appropriate place –

“Returning officers appointed under section 35(1)(a) of the Representation of the People Act 1983	Record keeping standards Service delivery standards Policy making standards Operational standards”
---	---

’.

Tudalen 27, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd –

*Gofyniad o ran y Gymraeg ar gyfer swyddogion canlyniadau*

**[ ] Gofyniad o ran y Gymraeg ar gyfer swyddogion canlyniadau**

Yn y tabl ym mharagraff (1) o Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg 2011, mewnosoder yn y lle priodol –

“Swyddogion canlyniadau a benodir o dan adran 35(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983	Safonau cadw cofnodion Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu”
--	---

**Adam Price**

5

Page 27, after line 25, insert a new section –

**[ ] Authorisation to give compliance notice to returning officers in relation to Welsh language standards**

- (1) The Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015 (S.I. 2015/996) (“the 2015 Regulations”) are amended as follows.
- (2) In regulation 3(1), after the words “county borough councils” insert “, to returning officers”.
- (3) After regulation 3(2) insert –  
“(3) In this regulation “returning officers” means returning officers appointed under section 35(1)(a) of the Representation of the People Act 1983 (c. 2).”
- (4) The amendments made by this section do not affect the power to make further regulations amending or revoking the 2015 Regulations.’.

Tudalen 27, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Awdurdodiad i roi hysbysiad cydymffurfio i swyddogion canlyniadau mewn perthynas â safonau’r Gymraeg**

- (1) Mae Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (O.S. 2015/996) (“Rheoliadau 2015”) wedi eu diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn rheoliad 3(1), ar ôl y geiriau “cyngorau bwrdeistref sirol” mewnosoder “, swyddogion canlyniadau”.
- (3) Ar ôl rheoliad 3(2) mewnosoder –  
“(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr “swyddogion canlyniadau” yw swyddogion canlyniadau a benodir o dan adran 35(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2).”
- (4) Nid yw’r diwygiadau a wneir gan yr adran hon yn effeithio ar y pŵer i wneud rheoliadau pellach sy’n diwygio neu’n dirymu Rheoliadau 2015.’.

**Peter Fox**

111

Page 27, after line 25, insert a new section –

*‘Assistance with voting for persons with disabilities*

**[ ] Assistance with voting for persons with disabilities**

Section 36A (Rules for local elections in Wales) of the Representation of the People Act 1983 is amended as follows. After subsection (3) insert –

- “(4) Rules under subsection (1) must require that each polling station be equipped with such equipment as it is reasonable to provide for the purposes of enabling, or making it easier for, persons who find it difficult or impossible to vote in the manner directed by the rules because of –
- (a) blindness or partial sight, or
  - (b) another disability.
- (5) The Electoral Commission must publish guidance in relation to the type of equipment that should be present in polling stations in order to comply with the duty imposed by subsection (4).”.

Tudalen 27, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd –

*‘Cymorth gyda phleidleisio ar gyfer personau ag anableddau*

[ ] **Cymorth gyda phleidleisio ar gyfer personau ag anableddau**

Mae adran 36A (rheolau ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 wedi ei diwygio fel a ganlyn. Ar ôl is-adran (3) mewnosoder –

- “(4) Rules under subsection (1) must require that each polling station be equipped with such equipment as it is reasonable to provide for the purposes of enabling, or making it easier for, persons who find it difficult or impossible to vote in the manner directed by the rules because of –
- (a) blindness or partial sight, or
  - (b) another disability.
- (5) The Electoral Commission must publish guidance in relation to the type of equipment that should be present in polling stations in order to comply with the duty imposed by subsection (4).”.

**Mick Antoniw**

33

Section 38, page 31, leave out lines 29 to 31 and insert –

‘( ) Senedd Cymru (“the Senedd”);’.

Adran 38, tudalen 31, hepgorer llinellau 29 hyd at 31 a mewnosoder –

‘( ) Senedd Cymru (“the Senedd”);’.

**Mick Antoniw**

34

Section 38, page 32, line 5, leave out ‘Senedd Cymru (“the Senedd”)’ and insert ‘the Senedd’.

Adran 38, tudalen 32, llinell 5, hepgorer ‘Senedd Cymru (“the Senedd”)’ a mewnosoder ‘the Senedd’.

**Mick Antoniw** 35

Section 38, page 32, leave out lines 31 to 39.

Adran 38, tudalen 32, hepgorer llinellau 31 hyd at 39.

**Mick Antoniw** 36

Section 39, page 33, line 5, after ‘makes’, insert ‘minor and’.

Adran 39, tudalen 33, llinell 5, ar ôl ‘gwneud’, mewnosoder ‘mân ddiwygiadau a’.

**Adam Price** 122

Section 44, page 35, after line 8, insert –

‘() After section 22 (duties of a principal council), insert new section –

**“[23] Determining the names of wards, areas and communities)**

Each ward, area, or community resulting from the review process in this Part must have a single name for the purposes of identifying it in communication through Welsh and English, unless the Commission, or the relevant body as the case may be, considers this would be unacceptable (in which case it may have different names for the purposes of identifying it in communication through Welsh and English).”.

( ) In section 34 (Pre-review procedure), after 34(3)(a) insert –

“(b) the Welsh Language Commissioner,”.

( ) In section 35 (Consultation and investigation), before 35(1) insert –

“(1) Prior to commencing a review under this Part, the Commission must hold a pre-consultation with the Welsh Language Commissioner on the orthography of any names proposed and have regard to any representations from the Commissioner on the proposed names.”.

Adran 44, tudalen 35, ar ôl llinell 9, mewnosoder –

‘() Ar ôl adran 22 (dyletswyddau prif gyngor), mewnosoder adran newydd –

**“[23] Penderfynu enwau wardiau, ardaloedd a chymunedau**

Rhaid i bob ward, ardal, neu gymuned sy’n deillio o’r broses adolygu yn y Rhan hon gael un enw at ddibenion ei hadnabod mewn cyfathrebiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni bai bod y Comisiwn, neu’r corff perthnasol, yn ôl y digwydd, yn ystyried y byddai hyn yn annerbyniol (ac os felly caiff gael enwau gwahanol at ddibenion ei hadnabod mewn cyfathrebiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg).”.

( ) Yn adran 34 (y weithdrefn ragadolygu), ar ôl 34(3)(a) mewnosoder –

“(b) Comisiynydd y Gymraeg,”.

( ) Yn adran 35 (ymgyngori ac ymchwilio), o flaen 35(1) mewnosoder –

“(1) Cyn cychwyn adolygiad o dan y Rhan hon, rhaid i’r Comisiwn gynnal rhag-ymgyngoriad â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff unrhyw enwau arfaethedig a rhoi sylw i unrhyw sylwadau gan y Comisiynydd ar yr enwau arfaethedig.”’.

**Mick Antoniw**

37

Section 45, page 36, leave out lines 3 to 5 and insert –

- ‘() in paragraph (d) omit “, and”;
- () omit paragraph (e);’.

Adran 45, tudalen 36, hepgorer llinellau 3 hyd at 5 a mewnosoder –

- ‘() ym mharagraff (d) hepgorer “, ac”;
- () hepgorer paragraff (e);’.

**Mick Antoniw**

38

Section 45, page 36, line 11, leave out ‘of’ and insert ‘for’.

